IS-DDEDDFWRIAETH
CYMRU

# LlC24-45

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Dirymu) 2024

*Gwnaed* *4 Tachwedd 2024*

*Yn dod i rym un unol ag erthygl 1(2)(b)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26(2) a 204(1)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Dirymu) 2024.

(2) O ran y Gorchymyn hwn—

(a) mae'n gymwys mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr(**2**);

(b) daw i rym pan fydd wedi ei wneud.

### Dirymiadau

**2.** Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr 2023(**3**);

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gan O.S. 2009/778 (Cy. 66).

(**3**) Gwnaed Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr 2023 ar 28 Chwefror 2023 a daeth i rym ar y dyddiad hwnnw. Fe'i diwygiwyd gan Orchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Diwygio) 2023.

(b) Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Diwygio) 2023(**1**).

*Jeremy Miles*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Tachwedd 2024

(**1**) Gwnaed Gorchymyn Ymyrryd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Diwygio) 2023 ar 13 Mawrth 2023 a daeth i rym ar y dyddiad hwnnw.